


Adroddiad Arolygu ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Llety Delfryn a Rhyd Alyn

Dyddiad yr arolygiad: 27, 28 a 29 Gorffennaf
2026

Dyddiad cyhoeddi: 29 Hydref 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	Ansawdd Profiad y Claf	10
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	16
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	24
4.	Y camau nesaf	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	31
	Atodiad C – Cynllun gwella	32



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Lety Delfryn a Rhyd Alyn ar 27, 28 a 29 Gorffennaf 2026. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Llety Delfryn – 24 o welyau sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu dan glo i fenywod
- Rhyd Alyn – 6 o welyau yn darparu gwasanaethau adsefydlu cymunedol i fenywod.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cafodd pump holiadur cleifion ac un holiadur perthnasau/gofalwyr eu cwblhau, a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion â charedigrwydd, parch a thosturi, gan ymateb yn gyflym ac yn briodol i'w hanghenion. Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi drwy brosesau gofal strwythuredig ac effeithiol, gan gynnwys asesiadau cynhwysfawr, mynediad amserol at wasanaethau gofal iechyd ac adolygiadau amlddisgyblaethol rheolaidd. Roedd amgylcheddau'r uned yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan ac yn darparu lleoedd diogel, cyfforddus a therapiwtig, gan gynnwys ardaloedd cymunedol ac awyr agored dymunol. Roedd y cleifion i gyd yn gallu mynd i'w hystafelloedd gwely en-suite eu hunain, ac roeddent yn cael eu hannog i'w personoli. Roedd bleinds wedi'u ffitio ar baneli arsylwi drysau'r ystafelloedd gwely er mwyn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu gofal ac yn cael eu hannog i feithrin sgiliau byw yn annibynnol. Roedd ystod eang o weithgareddau a chyfleusterau therapiwtig ar gael i gefnogi llesiant y cleifion, gyda chyfraniad gan therapi galwedigaethol a'r tîm amlddisgyblaethol ehangach. Roedd y rhain yn cyfrannu'n gadarnhaol at brofiad ac adferiad y claf. Gwelsom amrywiaeth o gyfleoedd i gleifion, teuluoedd a gofalwyr roi adborth a gwelsom dystiolaeth fod hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad a gwelliant y gwasanaeth. Roedd trefniadau cadarnhaol hefyd ar waith i gefnogi ymgysylltiad y gofalwyr, gan gynnwys gwaith parhaus drwy'r rhaglen Triongl Gofal.

Roedd ystod eang o wybodaeth addas a hygyrch ar gael i gefnogi cleifion yn ystod eu harhosiad, ond roedd angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod y byrddau gwybodaeth yn Llety Delfryn yn parhau i fod yn gyfredol a chyflwyno bwrdd “Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni” dynodedig yn Rhyd Alyn.

Dangosodd y staff ymrwymiad clir i barchu hawliau a dewisiadau unigol y cleifion, gyda chymorth gwasanaethau eirioli a chynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelsom gydymffurfiaeth uchel â hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ac roedd addasiadau rhesymol ar waith er mwyn helpu i gynnig mynediad teg at wasanaethau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y wybodaeth i gleifion sy'n cael ei harddangos drwy'r gwasanaeth yn gywir, yn gyfredol ac yn cael ei chynnal yn briodol.
- Cyfathrebu'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i adborth gan gleifion yn gyson ar draws y ddwy uned.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cyfathrebu clir, cefnogol a pharchus gyda chleifion
- Cyflawnwyd achrediad Cyfnod 1 y Triongl Gofal, gan ddangos ymrwymiad i gynnwys teuluoedd a gofalwyr a'u cefnogi
- Ystod eang o weithgareddau therapiwtig
- Ffocws cryf ar adsefydlu ac annibyniaeth
- Cyfleoedd rheolaidd i gleifion a gofalwyr roi adborth
- Cyfranogiad cynrychiolwyr profiad bywyd annibynnol o ofal cleifion
- Cymorth i gleifion sy'n siarad Cymraeg ac anghenion iaith eraill
- Cymorth cadarnhaol i gleifion trawsryweddol
- Datblygu ystafell aml-ffydd i gefnogi anghenion crefyddol a diwylliannol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol gan dîm amlddisgyblaethol medrus ac ymrwymedig ar y cyfan. Roedd trefniadau, polisïau a phrosesau llywodraethu addas ar waith i gefnogi gofal diogel ac effeithiol, gan gynnwys gweithio amlddisgyblaethol, trefniadau diogelu, cynllunio i ryddhau cleifion, gweithgareddau archwilio a systemau i roi gwybod am ddigwyddiadau a'u rheoli.

Roedd gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd gydlynol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion a risgiau'r cleifion. Roedd prosesau rheoli risg wedi'u hategu gan asesiadau risg unigol, cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol unigol, arsylwadau therapiwtig a dulliau ataliol. Roedd y cynlluniau gofal yn gynhwysfawr, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adlewyrchu anghenion wedi'u hasesu, risgiau a dewisiadau'r cleifion. Gwelsom fod y cleifion yn cymryd rhan yn eu cynlluniau gofal a rhyddhau lle bo'n bosibl, ac roedd y cofnodion gofal yn dangos cyfranogiad y tîm amlddisgyblaethol mewn cynlluniau triniaeth ac adferiad.

Roedd y gwaith rheoli meddyginiaethau yn drefnus, gyda phrosesau llywodraethu ac archwilio priodol ar waith i gefnogi ymarfer diogel. Fodd bynnag, roedd y meddyginiaethau ar gyfer Rhyd Alyn yn cael eu storio yn Llety Delfryn oherwydd pryderon yn ymwneud â thymereddau'r ystafell feddyginiaethau yn Rhyd Alyn. Yn ogystal, nid oedd gwiriadau o gyfarpar cymorth cyntaf bob amser yn cael eu cwblhau ar yr adegau priodol. Gwnaethom hefyd nodi gwall dogfennu mewn un ffurflen cydsynio i driniaeth, yr aethpwyd i'r afael ag ef yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom gydymffurfiaeth dda â gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl, a gefnogir gan weinyddydd Deddf Iechyd Meddwl dynodedig a oedd yn goruchwyllo, monitro a dogfennu'r prosesau statudol.

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau wedi'u sefydlu'n dda ar y cyfan, gyda safonau cadw tŷ da yn cael eu harsylwi drwy'r gwasanaeth a thîm ystadau ar y safle. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai materion amgylcheddol yn Llety Delfryn, gan gynnwys lleithder yn ystafell ymolchi un o'r cleifion a rhywfaint o ddifrod i waliau a lloriau yr oedd angen eu trwsio. Yn ogystal, gwnaethom nodi bylchau yng nghofnodlyfrau monitro tymheredd oergelloedd yr adran therapi galwedigaethol. Roedd angen sylw ar y materion hyn er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth barhaus â'r trefniadau atal a rheoli heintiau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mynd i'r afael â materion amgylcheddol yn ddioed, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar drefniadau storio meddyginiaethau ac atal a rheoli heintiau
- Cwblhau a dogfennu gwiriadau o gyfarpar cymorth cyntaf mor aml ag sy'n ofynnol
- Cryfhau prosesau monitro tymheredd oergelloedd i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n gyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd systemau rheoli risg cadarn yn cefnogi'r broses o ddarparu gofal yn ddiogel
- Arferion diogelu tosturiol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Gwaith cynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n canolbwyntio ar adferiad gyda chyfranogiad y claf
- Llywodraethu Deddf Iechyd Meddwl cryf, goruchwyliaeth weinyddol ddynodedig a chyfranogiad cleifion ystyrlon wrth gynllunio absenoldeb a gwneud penderfyniadau
- Egwyddorion Cefnogi Ymddygiad cadarnhaol ym maes darparu gofal, gydag arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio fel dewis olaf
- Cymorth cryf i'r claf roi meddyginiaeth iddo ef ei hun
- Bwriedir rhoi system rhoi meddyginiaethau wedi'u presgripsiynu'n electronig ar waith ar ddiwedd 2026
- Disgrifiodd y staff amrywiaeth o fentrau gwella ansawdd a oedd yn mynd rhagddynt neu wedi'u cwblhau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom drefniadau rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn Llety Delfryn a Rhyd Alyn. Roedd y niferoedd staffio yn cyd-fynd â gofynion y gwasanaeth ac roeddent yn ddigonol i gefnogi diogelwch y cleifion. Roedd systemau llywodraethu sefydledig yn goruchwyllo pob agwedd ar y gwasanaeth yn effeithiol, gan gynnwys diogelwch cleifion, effeithiolrwydd clinigol, staffio, diogelu, digwyddiadau, cwynion a gweithgarwch gwella ansawdd. Roedd cyfarfodydd llywodraethu, archwiliadau a phrosesau monitro yn cefnogi atebolrwydd ac yn sicrhau bod materion a nodwyd yn cael eu hadolygu, yr ymdrinnir â nhw, a'u bod yn cael eu rheoli mewn modd amserol.

Nododd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad fod yr arweinwyr yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Dywedodd y staff eu bod yn gallu codi pryderon a rhoi gwybod am ymarfer anniogel, ac roedd trefniadau priodol ar waith i gefnogi llesiant ac ymgysylltiad staff. Roedd strwythurau cyfarfod sefydledig yn rhoi cyfleoedd i'r staff godi pryderon; fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd cyfarfodydd uwch-aelodau o'r staff wedi'u cynnal mor aml ag sy'n ofynnol yn ystod y chwe mis blaenorol.

Roedd y prosesau recriwtio yn briodol, gyda thystiolaeth fod gwiriadau cyn cyflogi addas wedi'u cwblhau cyn i'r staff ddechrau cyflogaeth. Roedd y cyfraddau cydymffurfio ag arfarniad a goruchwyliaeth yn uchel, ac roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant cyffredinol yn fwy na 90% ar draws y ddwy uned. Fodd bynnag, gwelsom gydymffurfiaeth isel â hyfforddiant Codi a Chario Pobl yn Fwy Diogel a cheisiwyd sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â threfniadau i liniaru risgiau cysylltiedig. Cymerodd y gwasanaeth gamau prydlon i fynd i'r afael â'r mater yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom hefyd nodi sawl cwrs hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r rôl ychwanegol lle roedd angen gwella cydymffurfiaeth. Roedd rhai ffigurau cydymffurfiaeth is yn adlewyrchu carfanau staff bach, cyrsiau newydd eu cyflwyno, gofynion hyfforddiant arbenigol ac oedi wrth ddiweddarau'r system hyfforddiant ar ôl cwblhau hyfforddiant a newidiadau i rolau'r staff. Er bod y materion hyn yn cael eu monitro drwy drefniadau llywodraethu, roedd angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod hyfforddiant sy'n weddill yn cael ei gwblhau a bod y cofnodion yn parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff cyfarfodydd staff eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol.
- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r rôl sy'n weddill o fewn yr amserlenni disgwylledig.
- Adolygu'r system rheoli hyfforddiant i sicrhau bod gofynion hyfforddiant y staff yn berthnasol i'w rolau presennol a bod cofnodion cydymffurfiaeth yn gywir ac yn gyfredol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwaith tîm amlddisgyblaethol effeithiol
- Polisiâu a gweithdrefnau cyfredol sy'n cefnogi gofal diogel ac effeithiol
- Lefelau staffio priodol, heb ddefnyddio unrhyw staff asiantaeth ers mis Ionawr 2026
- Ystod o systemau llesiant a chymorth i staff
- Cyflwyno menter Adolygiad Ar Ôl Gweithredu i gryfhau dysgu ac ymarfer myfyriol yn dilyn digwyddiadau
- Roedd canmoliaeth yn fwy o lawer na chwynion ar draws y ddwy uned
- Roedd y staff yn barod i dderbyn canfyddiadau ein harolygiad ac ymateb iddynt.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Gwnaethom ofyn i gleifion, teuluoedd a gofalmwr lenwi holiaduron AGIC a siarad â chleifion ar yr unedau lle roedd yn briodol. Cafodd pump holiadur cleifion ac un holiadur perthnasau/gofalmwr eu cwblhau. Felly, roedd maint y sampl yn rhy fach i ddod i gasgliadau cadarn ac ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn. Cafwyd adborth cymysg gan y cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gadarnhaol am y gofal a gawsant gan staff, y wybodaeth a roddwyd iddynt, ac agweddau ar amgylchedd yr uned, gan gynnwys eu hystafelloedd gwely, bwyd, gofod awyr agored a gweithgareddau. Fodd bynnag, dywedodd un claf:

“Mae angen i fwy o aelodau o staff hwyluso ein hanghenion ac ati, mynd i'r ardd, mynd am ddiwrnodau allan, mynd am dro bach ddwywaith y dydd.”

Cododd y cleifion bryderon hefyd ynghylch cymryd rhan mewn cynllunio gofal. Er iddynt ddweud eu bod yn gallu mynychu cyfarfodydd a rowndiau ward mewn perthynas â'u gofal a'u triniaeth, nid oedd pob un ohonynt yn ymwybodol o'u cynllun gofal a thriniaeth ac nid oedd unrhyw un yn teimlo eu bod yn rhan o'i ddatblygiad. Yn ogystal, nododd un claf nad oedd yn teimlo ei fod yn cael clust i wrando yn ystod rowndiau ward a chyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.

Roedd safbwyntiau'r cleifion o ran diogelwch yn gymysg, gyda thri o'r pump ymatebydd yn dweud nad oeddent yn teimlo'n ddiogel. Dywedodd un claf:

“Gan nad oes digon o staff i gael sgwrs â nhw, weithiau mae nifer y staff mor brin fel nad ydw i ac eraill wedi teimlo'n ddiogel.”

Er gwaetha'r pryderon hyn, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (3/5) fod ansawdd cyffredinol y lleoliad yn 'dda'.

Roedd yr adborth a gafwyd gan berthnasau/gofalwyr yn gadarnhaol. Disgrifiodd yr ymatebydd fod y staff yn "wych", roedd yn teimlo bod croeso iddo a'i fod yn ddiogel wrth ymweld â'r ysbyty, gan ddweud ei fod yn teimlo ei fod yn cymryd rhan briodol yng ngofal y claf, a soniodd fod yr amrywiaeth o weithgareddau i gleifion yn dda iawn.

Dylai'r gwasanaeth adolygu'r adborth a dderbyniwyd ac ystyried cyfleoedd pellach i gryfhau cyfranogiad y cleifion wrth gynllunio gofal a mynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â diogelwch a mynediad at weithgareddau.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod prosesau effeithiol ar waith i hyrwyddo a chynnal iechyd corfforol ac iechyd meddwl y cleifion. Gallai'r cleifion gael amrywiaeth o wybodaeth addas er mwyn cefnogi eu hiechyd a'u llesiant. Roedd Nyrs Gyffredinol Gofrestredig yn arwain gofal iechyd corfforol, gan sicrhau bod y cleifion yn cael asesiadau iechyd corfforol wrth iddynt gael eu derbyn, yn eu monitro'n barhaus ac yn gwneud atgyfeiriadau lle roedd angen. Roedd y cleifion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn rhaglenni sgrinio iechyd ac yn cael eu cefnogi i reoli cyflyrau hirdymor. Roedd y Nyrs Gyffredinol Gofrestredig yn rhoi cyngor ar hybu iechyd, yn monitro sgil-ffeithiau meddyginiaeth wedi'i phresgripsiynu ac yn cynnig cymorth hyblyg drwy glinig iechyd galw heibio.

Roedd cleifion yn cael eu helpu i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau therapiwtig, hamdden a chymunedol a oedd yn cyfrannu at eu llesiant corfforol a meddyliol. Roedd rhaglenni gweithgareddau'n cael eu harddangos yn glir er mwyn hyrwyddo cyfranogiad. Roedd Therapi Galwedigaethol ar gael ar y ddwy uned, ac roedd cydgysylltydd gweithgareddau ar gael yn ddyddiol i gefnogi ymgysylltiad â'r cleifion. Roedd ystod eang o weithgareddau hunangyfeiriedig hefyd yn cael eu darparu, gan gynnwys setiau teledu, gemau a jig-sos.

Urddas a pharch

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd bwylllog, ystyriol a phroffesiynol, gan gyfrannu at amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar yr uned. Roedd cymysgedd priodol o staff yn y ddwy uned i ddiwallu anghenion y cleifion.

Roedd preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu hyrwyddo drwy'r gwasanaeth. Roedd y ddwy uned yn darparu gofal i fenywod yn unig, gydag ystafelloedd gwely en-suite ac ystafelloedd ymolchi. Roedd ardaloedd cymunedol ar gael ar gyfer rhyngweithio

cymdeithasol, ochr yn ochr â mannau tawelach lle gallai'r cleifion dreulio amser ar eu pen eu hunain, gan gynnwys ystafell synhwyraidd. Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun ac roedd modd i'r cleifion bersonoli eu hystafelloedd a chadw eiddo personol ynddynt, yn amodol ar asesiadau risg unigol. Gallai'r cleifion hefyd gloi eu hystafelloedd gwely eu hunain, gyda'r staff yn gallu dadwneud y cloeon pe byddai angen.

Roedd bleinds wedi'u ffitio ar baneli arsylwi drysau'r ystafelloedd gwely, a oedd yn golygu bod modd cynnal preifatrwydd ond gan gynnal arsylwadau pan oedd angen. Gwelwyd aelodau o'r staff yn cnocio ar y drws cyn mynd i mewn i'r ystafelloedd gwely ac roeddent yn parchu preifatrwydd y cleifion. Roedd yr adborth a gasglwyd drwy ein hymgysylltiad â chleifion a gofalmwr yn ystod yr arolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan, gan ddisgrifio'r staff fel unigolion cwrtais, hawdd mynd atynt a pharchus. Er bod un claf wedi mynegi pryderon nad oedd yn cael clust i wrando bob amser, siaradodd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gadarnhaol am y cydberthnasau â'r staff gan ddweud wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Gwelsom fod ystod eang o wybodaeth ar gael i'r cleifion i helpu eu gofal a'u triniaeth. Roedd y Datganiad o Ddiben ar gael yn rhwydd ac roedd canllawiau uned cynhwysfawr yn cael eu darparu er mwyn helpu cleifion a'u teuluoedd i ddeall y gwasanaeth, eu gofal a'u triniaeth, y cyfleusterau sydd ar gael, hawliau'r cleifion a ffynonellau cymorth. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei harddangos yn glir drwy'r unedau, gan gynnwys manylion am wasanaethau eirioli, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), sut i godi pryderon neu gwynion, trefniadau ymweld a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael.

Er bod ystod o wybodaeth berthnasol i gleifion ar gael, gwnaethom nodi rhai cyfleoedd ar gyfer gwella. Nid oedd rhai o'r byrddau gwybodaeth i gleifion yn Llety Delfryn, gan gynnwys y bwrdd o luniau aelodau o'r staff a'r bwrdd bwydlen, yn cael eu diweddarau'n gyson.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y wybodaeth i gleifion sy'n cael ei harddangos drwy'r gwasanaeth yn gywir, yn gyfredol ac yn cael ei chynnal yn briodol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd glir, cefnogol a pharchus. Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn teimlo'n gyfforddus i fynd at y staff, ac roedd y staff yn ymateb yn gyflym i geisiadau a phryderon. Roedd ystafelloedd addas ar gyfer trafodaethau cyfrinachol ar gael ar bob uned.

Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a phobl eraill y tu allan i'r gwasanaeth drwy ddefnyddio technoleg ddigidol, gan gynnwys dyfeisiau personol a chyfleusterau cyfrifiadurol dan oruchwyliaeth. Roedd trefniadau ar waith i

sicrhau defnydd diogel, gan gymhwyso cyfyngiadau a mynediad wedi'i fonitro yn unol ag asesiadau risg unigol.

Rhoddwyd gwybodaeth i gleifion mewn fformatau sy'n briodol i'w hanghenion unigol. Er mai yn Saesneg gan mwyaf roedd gwybodaeth ar gael, roedd rhywfaint o wybodaeth ddwyieithog yn y gwasanaeth a gellid cael gwasanaethau cyfieithu pan oedd angen. Rhoddwyd enghreifftiau i ni o sut roedd y gwasanaeth yn diwallu anghenion iaith cleifion sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys cymorth i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y staff wrthym hefyd y gallai gwybodaeth gael ei darparu mewn ieithoedd eraill lle roedd angen.

Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth ar gyfer pedwar claf a gwelsom eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi'u teilwra at anghenion a risgiau unigol. Dangosodd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt fod cleifion yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal ble bynnag y bo'n bosibl, ond dangosodd yr adborth i'r holiadur nad oedd rhai cleifion yn cymryd rhan yn llawn wrth gynllunio gofal. Ceir rhagor o ganfyddiadau mewn perthynas â chynllunio gofal yn Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a Darparu Gofal yr adroddiad hwn.

Cafodd y cleifion ofal a thriniaeth gan dîm aml-ddisgyblaethol sefydledig a oedd yn cynnwys gweithwyr nyrsio, meddygol, seicoleg, seiciatreg, therapi galwedigaethol a gofal iechyd proffesiynol eraill. Roedd prosesau cyfarfod sefydledig, gan gynnwys trosglwyddiadau dyddiol, cyfarfodydd cyfathrebu a rowndiau'r ward, yn cefnogi'r gwaith o ddarparu a goruchwyllo gofal cleifion. Roeddem yn bresennol mewn cyfarfod cyfathrebu dyddiol a gwelsom fod y staff yn dangos dealltwriaeth dda o'r cleifion yn eu gofal. Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar anghenion y cleifion, risgiau ac adferiad, gan helpu i sicrhau bod y gofal yn parhau i fod yn gydlynol ac yn ymatebol.

Gwelsom ffocws cryf ar adsefydlu yn y ddwy uned. Roedd y staff yn cymryd camau gweithredol i gefnogi'r cleifion i wneud dewisiadau personol a mynegi eu hoffterau, gan gynnwys penderfyniadau o ran bwyd, dillad, a lle bo'n briodol, cymryd eu meddyginiaeth eu hunain. Roedd y cleifion yn cael eu hannog i gyflawni tasgau bob dydd i ddatblygu sgiliau byw yn annibynnol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwnaethom edrych ar gofnodion pump claf a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a gwelsom fod y ddogfennaeth yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a Chod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (2016). Rhoddir rhagor o fanylion yn adran Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yr adroddiad hwn.

Roedd gwasanaethau eirioli yn cael eu hyrwyddo'n dda drwy'r gwasanaeth. Roedd Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol ar gael i'r cleifion, ac roedd cymorth eirioli dynodedig ar gael i ofalwyr a theuluoedd.

Roedd y staff yn dangos ymrwymiad clir i gynnal hawliau'r cleifion a dewisiadau cleifion unigol. Roedd polisïau a phrosesau ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb ac amddiffyn staff a chleifion rhag gwahaniaethu. Dangosodd cofnodion hyfforddiant fod lefel gydymffurfiaeth o 100% â hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar draws y ddwy uned.

Disgrifiodd y staff amrywiaeth o fentrau i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys mentrau gwrth-aflonyddu, cymorth i staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ymwybyddiaeth o anabledd a phrosesau ar gyfer codi pryderon. Roedd y staff hefyd yn gallu mynd at arweinwyr y rhwydwaith i gael cyngor a chymorth os oedd angen.

Roedd addasiadau rhesymol ar waith i gefnogi mynediad teg at wasanaethau, gan gynnwys dolen sain, mynediad drwy lifft a threfniadau addas i gleifion ag anghenion symudedd. Gwnaethom hefyd nodi arferion da wrth ddatblygu ystafell aml-ffydd yn barhaus i gefnogi anghenion crefyddol a diwylliannol y cleifion. Dangosodd y staff eu bod yn ystyried cydraddoldeb a hawliau dynol wrth gefnogi cleifion trawsryweddol. Rhoddwyd enghraifft i ni o sut roedd claf oedd yn trawsnewid rhywedd yn cael ei gefnogi yn unol â'i dewisiadau/ddewisiadau, gydag asesiadau risg unigol parhaus a thrafodaethau'n cael eu defnyddio i gydbwyso hawliau, anghenion a diogelwch pob claf.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom amrywiaeth o gyfleoedd i gleifion, gofalwyr a theuluoedd roi adborth ar y gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd cymunedol wythnosol, cyfarfodydd misol Cyngor y Bobl a chynrychiolwyr cleifion a wnaeth rannu adborth a chyfrannu at ddatblygiad y gwasanaeth. Gwnaeth cynrychiolydd profiad bywyd annibynnol hefyd fynychu'n rheolaidd er mwyn ymgysylltu â chleifion a'u helpu. Gwelsom hefyd drefniadau cadarnhaol i gefnogi ymgysylltiad y gofalwyr, gyda thystiolaeth glir o waith i'w cynnwys yn natblygiad y gwasanaeth a chynllunio gofal lle y bo'n briodol.

Ceisiodd y gwasanaeth adborth yn weithredol drwy arolygon cleifion, gofalwyr a rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Cafodd yr adborth ei adolygu a'i ddefnyddio i lywio gwelliannau i wasanaethau, gan ddatblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â themâu a nodwyd. Roedd canfyddiadau'r arolwg yn gadarnhaol ar y cyfan mewn perthynas â gofal a chymorth ac roeddent yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygiad parhaus y gwasanaeth.

Gwelsom dystiolaeth fod adborth yn cael ei ddefnyddio i wneud gwelliannau yn y gwasanaeth. Roedd bwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' yn cael ei arddangos yn Llety Delfryn er mwyn dangos y camau a gymerwyd mewn ymateb i adborth gan gleifion. Fodd bynnag, nid oedd trefniant tebyg i'w weld yn Rhyd Alyn.

Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod y camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i adborth gan gleifion yn cael eu cyfathrebu'n gyson ar draws y ddwy uned.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd pob uned yn darparu amgylchedd therapiwtig cyfforddus, gyda gosodiadau a ffitiadau addas i ddiwallu anghenion y grŵp cleifion. Gwelsom fod y ddwy uned yn lân, yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan. Roedd amrywiaeth o gyfleusterau addas ar gael i'r cleifion, gan gynnwys ardaloedd cymunedol cyfforddus, ystafelloedd gweithgareddau, mannau awyr agored ac ystafelloedd gwely wedi'u dodrefnu'n dda.

Roedd gwiriadau diogelwch amgylcheddol dyddiol yn cael eu cynnal er mwyn rhoi sicrwydd bod amgylcheddau'r uned yn parhau i fod yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Gwelsom fod y gwiriadau hyn yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n briodol. Roedd ystadau a phrosesau cynnal a chadw'n cael eu rheoli'n dda drwy dîm ystadau ar y safle, gyda materion cynnal a chadw'n cael eu hadolygu fel eitem sefydlog ar yr agenda mewn cyfarfodydd dyddiol er mwyn helpu i ddatrys pryderon amgylcheddol mewn modd amserol.

Er bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan, gwnaethom nodi rhai meysydd y mae angen sylw arnynt. Mae rhagor o ganfyddiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd yn yr adran Atal a Rheoli Heintiau yn yr adroddiad hwn.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd polisïau, prosesau ac archwiliadau'n cefnogi'r gwaith o reoli risg a darparu gofal diogel. Roedd prosesau rheoli risg yn cael eu hymgorffori mewn ymarfer o ddydd i ddydd ac roedd y staff yn dangos dealltwriaeth dda o'r risgiau i gleifion unigol a'r mesurau sy'n ofynnol i'w rheoli'n ddiogel. Gwnaethom edrych ar y trefniadau a oedd ar waith i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr, a gwelsom fod y mesurau addas canlynol ar waith:

- Roedd mynedfeydd yr uned yn hygyrch i bawb ac roeddent wedi'u cloi drwy gydol yr arolygiad er mwyn atal unrhyw achosion o fynediad heb awdurdod
- Roedd gosodiadau a ffitiadau gwrthglymu addas wedi'u ffitio ym mhob ardal i gleifion
- Roedd ystod o dorwyr clymau ar gael yn hawdd i'r staff, gyda chanllawiau clir ar sut i'w defnyddio a'u cynnal a'u cadw.
- Roedd larymau diogelwch personol ar gael i bob aelod o'r staff ac yn cael eu cario drwy gydol yr arolygiad
- Roedd pwyntiau galw am nyrs wedi'u lleoli yn ystafelloedd gwely'r cleifion, fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pan fyddai angen.

Roedd asesiadau ac archwiliadau o risg pwyntiau clymu cyfredol ar waith ar gyfer y ddwy uned. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai anghysondebau yn y ddogfennaeth. Yn Llety Delfryn, nid oedd cyfrifiaduron yr ystafell therapi galwedigaethol, ceblau, cyfarpar y gampfa ac oergell wedi'u cynnwys yn yr asesiad risg o bwyntiau clymu. Yn Rhyd Alyn, nid oedd oergelloedd a dyfeisiau cegin bach gyda cheblau wedi'u cofnodi. Yn ystod yr arolygiad, rhoddodd y staff sicrwydd fod yr asesiadau wedi'u diweddarau i ymdrin â'r materion a nodwyd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y trefniadau atal a rheoli heintiau yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan ar y ddwy uned. Roedd trefniadau cadw tŷ priodol ar waith, a gwelsom safonau glendid da drwy gydol yr arolygiad. Roedd ystod o archwiliadau'n cael eu cynnal i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion atal a rheoli heintiau ac roeddent yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â safonau ymarfer.

Dangosodd y staff ymwybyddiaeth o ofynion atal a rheoli heintiau. Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn uchel yn Llety Delfryn ar y cyfan; fodd bynnag, roedd y lefel cydymffurfiaeth yn Rhyd Alyn yn 75%, ac roedd angen ei gwella. Rhoddir rhagor o fanylion mewn perthynas â chydymffurfio â hyfforddiant yn adran Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol yr adran hon.

Er bod y trefniadau atal a rheoli heintiau yn effeithiol ar y cyfan, gwnaethom nodi nifer o broblemau amgylcheddol yn Llety Delfryn yr oedd ganddynt y potensial i beryglu proses atal a rheoli heintiau effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys sinc ystafell ymolchi a lleithder a oedd wedi effeithio ar y llawr, bordiau wal wedi'u difrodi neu wedi'u treulio mewn coridorau cymunedol, ardaloedd o waliau a oedd wedi'u difrodi, a biniau budr yr oedd angen eu glanhau. Cymerodd y staff gamau ar unwaith i lanhau'r biniau yn ystod yr arolygiad.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn ymdrin â materion atgyweirio a chynnal a chadw amgylcheddol yn ddioed er mwyn cefnogi proses atal a rheoli heintiau effeithiol.

Gwelsom hefyd nad oedd tymereddau'r oergelloedd yn yr adran Therapi Galwedigaethol yn cael eu monitro'n gyson. Roedd hyn yn peri risg nad oedd eitemau a oedd yn cael eu storio yn yr oergell wedi'u cynnal ar dymereddau diogel o bosibl.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod prosesau monitro oergelloedd yn cael eu cynnal yn gyson ac yn unol â gweithdrefnau lleol.

Maeth

Gwelsom fod anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u monitro'n briodol. Roedd asesiadau iechyd corfforol yn cael eu cwblhau ar adeg derbyn a'u hadolygu mewn ymateb i anghenion newidiol.

Roedd y gwasanaeth yn defnyddio cymorth arbenigol pan oedd angen. Disgrifiodd y staff sut y gellir gwneud atgyfeiriadau i'r gwasanaethau therapi iaith a lleferydd a deietetig a gwnaethant gadarnhau bod asesiadau tagu'n cael eu cwblhau ar gyfer pob claf. Dywedwyd wrthym fod deietegwyr allanol yn mynychu'r gwasanaeth i roi cyngor ar faeth, rheoli pwysau ac ymarfer corff.

Dangosodd y staff ymwybyddiaeth o ofynion a dewisiadau deietegol y cleifion a gwnaethant ddisgrifio sut gallai anghenion deietegol unigol a deietau arbenigol gael eu darparu i fodloni gofynion meddygol, diwylliannol a phersonol.

Roedd cyfleusterau cegin ar gael ar y ddwy uned, gan alluogi'r cleifion i baratoi bwyd a diod a chefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau byw yn annibynnol. Roedd dewis o brydau a diodydd hefyd ar gael i gleifion drwy gydol y dydd ac roeddent yn gallu rhoi adborth ar y bwyd a ddarparwyd. Gwelsom dystiolaeth bod cleifion wedi rhoi adborth yn ymwneud â mynediad at sesiynau coginio drwy fforymau llywodraethu a chynrychioliadol, a bod camau gweithredu wedi'u nodi i wella mynediad at y gweithgareddau hyn.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu trefniadau clinigol y gwasanaeth a gwelsom fod gweithdrefnau cadarn ar waith i reoli meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd polisïau perthnasol ar waith ac roeddent yn hygyrch i'r staff.

Roedd meddyginiaethau, gan gynnwys cyffuriau a reolir, yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau ac oergelloedd dan glo ac roedd tymereddau'r ystafell meddyginiaethau a'r oergelloedd yn cael eu monitro yn unol â pholisïau. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, roedd yr ystafell meddyginiaethau yn Rhyd Alyn yn gweithredu uwchlaw'r ystod tymereddau a argymhellir ar gyfer storio meddyginiaethau. Fel mesur dros dro, roedd meddyginiaethau'n cael eu storio a'u rhoi o Lety Delfryn. Er bod hyn yn lleihau'r risg uniongyrchol, roedd ganddo'r potensial i oedi'r broses o roi meddyginiaeth i gleifion.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau yr eir i'r afael â'r materion amgylcheddol sy'n effeithio ar storio meddyginiaethau yn Rhyd Alyn yn ddioed.

Roedd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i oruchwylio'r gwaith o reoli meddyginiaethau. Roedd digwyddiadau a gwallau mewn perthynas â meddyginiaethau yn cael eu nodi a'u rheoli trwy Datix, gyda gwersi'n cael eu rhannu i gefnogi gwelliant parhaus. Roedd y stoc meddyginiaethau'n cael ei chyfrif yn briodol, ac roedd trefniadau

archwilio mewnol effeithiol, gyda chymorth mewnbyn y fferyllfa, yn helpu i hyrwyddo'r broses o reoli a rhoi meddyginiaethau'n ddiogel. Cawsom wybod bod system presgripsiynu a rhoi meddyginiaethau electronig (ePMA) wedi'i chynllunio i'w rhoi ar waith ar ddiwedd 2026, a fyddai'n cryfhau prosesau rheoli a phresgripsiynu meddyginiaethau a threfniadau llywodraethu ymhellach.

Roedd y cofnodion meddyginiaeth yn cael eu cynnal i safon dda, gyda chofnod priodol o bresgripsiynu a rhoi meddyginiaethau. Roedd ffurflenni cydsynio i driniaeth yn cael eu storio ochr yn ochr â chofnodion rhoi meddyginiaeth i sicrhau eu bod ar gael i'r staff nyrsio'n rhwydd. Fodd bynnag, gwelsom fod un ffurflen cydsynio i driniaeth yn cynnwys enw claf anghywir, a godwyd gyda'r staff a'i unioni yn ystod yr arolygiad. Darperir rhagor o fanylion yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Gwelsom arferion presgripsiynu diogel a phriodol, gyda meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu yn unol ag anghenion unigol y cleifion a'u hadolygu'n rheolaidd. Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi i ddeall penderfyniadau a chymryd rhan mewn penderfyniadau am eu meddyginiaeth, a gwelwyd y staff yn esbonio meddyginiaethau wedi'u presgripsiynu ac yn asesu dealltwriaeth y cleifion. Roedd cleifion a'u teuluoedd a'u gofawyr yn cael eu hannog i fynychu rowndiau o'r ward lle roedd meddyginiaeth yn cael ei thrafod ac unrhyw newidiadau'n cael eu dogfennu'n glir.

Roedd y gwasanaeth yn cefnogi annibyniaeth y cleifion drwy broses hunanfeddyginiaethu sydd wedi bod yn destun asesiad risg. Ar adeg yr arolygiad, roedd chwe chlaf yn hunanfeddyginiaethu, gyda'r feddyginiaeth yn cael ei storio mewn storfa dan glo yn eu hystafelloedd gwely a hapwiriadau ar waith i gefnogi arfer diogel. Gwnaethom nodi bod hyn yn enghraifft o arfer da.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Gwelsom fod trefniadau diogelu effeithiol ar waith er mwyn diogelu oedolion agored i niwed. Roedd polisïau diogelu, gweithdrefnau a llwybrau adrodd ar gael yn rhwydd i'r staff, a wnaeth ddangos ymwybyddiaeth dda o gyfrifoldebau diogelu a gweithdrefnau adrodd.

Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu yn dda ar y cyfan yn y ddwy uned. Roedd y lefelau cydymffurfiaeth ag e-ddysgu Diogelu Unigolion sy'n Wynebu Risg (Canolradd) yn 100% yn Llety Delfryn a Rhyd Alyn. Fodd bynnag, roedd y lefelau cydymffurfiaeth â'r sesiwn ystafell ddosbarth rithwir gysylltiedig yn is ar Rhyd Alyn, ar 75%. Rhoddir rhagor o fanylion mewn perthynas â chydymffurfio â hyfforddiant yn adran Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant a Datblygiad Sefydliadol yr adran hon.

Roedd systemau priodol ar waith ar gyfer nodi pryderon diogelu, rhoi gwybod amdanynt a'u rheoli. Roedd digwyddiadau diogelu'n cael eu cofnodi gan ddefnyddio Datix, eu

monitro drwy drefniadau llywodraethu a'u huwchgyfeirio i asiantaethau allanol lle bo angen. Gwelsom dystiolaeth fod pryderon diogelu a thueddiadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, gyda gwersi'n cael eu rhannu i gefnogi gwelliannau parhaus.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth a'u bod yn gwybod â phwy y gallent siarad os oedd ganddynt unrhyw bryderon. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymateb i bryder diogelu oedd yn dod i'r amlwg mewn ffordd drugarog, a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gydbwysu cyfrifoldebau diogelu â dymuniadau a galluedd y claf.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn ddiogel, yn lân, yn addas at y diben ac ar gael yn hawdd i gefnogi gofal cleifion.

Roedd systemau addas ar waith i wirio a chynnal a chadw cyfarpar fel mater o drefn, gan gynnwys gwiriadau wythnosol o gyfarpar adfywio a silindrau ocsigen.

Er bod y systemau rheoli cyfarpar yn gadarn ar y cyfan, gwnaethom nodi nad oedd rhestr wirio'r cyfarpar cymorth cyntaf yn nodi'n glir pa mor aml roedd angen ei wirio ac roedd y cofnodion yn dangos nad oedd y gwiriadau bob amser yn cael eu cwblhau yn gyson. Dywedodd y staff y byddai'r ddogfennaeth yn cael ei haddasu i nodi'n glir pa mor aml roedd angen gwirio a'r dyddiadau gwirio.

Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwiriadau'r cyfarpar cymorth cyntaf yn cael eu cwblhau mor aml ag sy'n ofynnol a bod y ddogfennaeth yn nodi'n glir pryd mae'r gwiriadau'n ddyledus.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod systemau priodol ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd polisiâu a gweithdrefnau cyfredol ar waith yn yr ysbyty i arwain y staff i ddarparu gofal a thriniaeth diogel. Roedd trefniadau llywodraethu sefydledig, prosesau cyfarfodydd a systemau rheoli digwyddiadau'n helpu i nodi, adolygu a rheoli'r risgiau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i godi pryderon a chyfrannu at drafodaethau yn ymwneud â diogelwch cleifion a rheoli risgiau.

Roedd prosesau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli ac adolygu arsylwadau'r cleifion. Roedd y lefelau arsylwi yn cael eu haddasu yn ôl risgiau unigol, ac roedd y cofnodion yn cael eu cwblhau'n briodol gan staff. Roedd polisi Arsyllwadau Diogel a Chefnogol cyfredol ar waith er mwyn helpu'r staff i gynnal arsyllwadau yn gyson ac yn ddiogel.

Roedd y gwasanaeth yn hyrwyddo ymatebion diogel a therapiwtig i ymddygiadau heriol. Cafodd egwyddorion Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol eu hymgorffori yn y

gwasanaeth ac fe'u defnyddiwyd i lywio'r gwaith o reoli risgiau cleifion unigol. Defnyddiodd y staff ystod o ymyriadau, gan gynnwys gweithgareddau therapiwtig a chymorth wedi'i deilwra at yr unigolyn, fel strategaethau ataliol. Gwelsom dystiolaeth fod dulliau atal yn gorfforol yn cael eu defnyddio fel dewis olaf a bod arferion cyfyngol yn cael eu monitro drwy drefniadau llywodraethu, gyda chyfarfodydd wedi'u teilwra i'r tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal lle yr oedd themâu neu dueddiadau heriol wedi'u nodi ar gyfer cleifion unigol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom ddiwylliant cadarnhaol o welliannau parhaus i ansawdd ar draws y gwasanaeth. Cafodd ystod o archwiliadau a gweithgareddau monitro eu cynnal i adolygu ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gofal. Cafodd canfyddiadau archwiliadau eu trafod drwy drefniadau llywodraethu clinigol, gyda chamau gweithredu yn cael eu nodi, eu monitro ac ailedrych arnynt er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus yn ymarferol. Yn ogystal, cynhaliodd y gwasanaeth archwiliadau ansawdd mewnol misol, gyda chanfyddiadau yn cael eu hadolygu, cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu a chynnydd yn cael ei fonitro drwy drefniadau llywodraethu. Gwelsom dystiolaeth fod digwyddiadau, cwynion a chamgymeriadau'n cael eu defnyddio fel cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella'r gwasanaeth.

Disgrifiodd y staff amrywiaeth o fentrau gwella ansawdd a oedd yn barhaus neu newydd eu cwblhau. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio i wella ansawdd y ddogfennaeth cynllunio gofal, gwella rhan teuluoedd a gofalwyr, lleihau'r defnydd o staff asiantaeth, cryfhau prosesau rheoli meddyginiaethau a datblygu Rhyd Alyn fel gwasanaeth adsefydlu Lefel 1. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi cyflawni achrediad Cyfnod 1 y Triongl Gofal yn ddiweddar, gan ddangos ymrwymiad i gryfhau ymgysylltiad â gofalwyr a theuluoedd.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod arolygiad diweddar Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru o Lety Delfryn wedi canfod bod yr holl safonau a aseswyd wedi'u cyflawni, gan gynnwys safonau yn ymwneud â llywodraethu, archwilio, cyfranogiad y cleifion a dysgu o ddigwyddiadau, gan roi sicrwydd ychwanegol o ran ansawdd ac effeithiolrwydd y gofal sy'n cael ei ddarparu.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cadw'n electronig ac ar bapur. Roedd cofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd y system electronig wedi'i diogelu gan gyfrinair i atal mynediad heb awdurdod. Roedd manylion clinigol yn cael eu cofnodi'n gynhwysfawr ar y pryd, gan roi trosolwg manwl o'r cleifion a'u gofal.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion a chynlluniau gofal y cleifion yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yn adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar gofnodion pump claf er mwyn asesu eu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd pob claf a adolygwyd yn cael ei gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a gwelsom fod y trefniadau cadw yn gyfreithlon ac yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r Cod Ymarfer. Roedd dogfennau'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn drefnus, yn gyflawn, yn hawdd eu deall ac yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd y cofnodion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol i gefnogi'r broses o gadw cleifion yn gyfreithlon a'u monitro'n barhaus.

Roedd y gwasanaeth yn manteisio ar weinyddydd Deddf Iechyd Meddwl dynodedig a phrofiadol a oedd yn cefnogi staff gyda phrosesau'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Gwelsom fod trefniadau archwilio a monitro cadarn ar waith i gefnogi cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan gynnwys systemau i olrhain dyddiadau a gofynion allweddol, fel dyddiadau adnewyddu, atgyfeiriadau tribiwnlys, gofynion cydsynio i driniaeth ac ailddarllen hawliau'r cleifion. Roedd archwiliad chwe-misol o ffeiliau'r Ddeddf Iechyd Meddwl hefyd yn cael ei gynnal i nodi ac ymdrin ag unrhyw fylchau.

Roedd cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei hintegreiddio'n rhagweithiol i ofal cleifion, gyda systemau effeithiol ar waith i ddiogelu hawliau cleifion a oedd yn cael eu cadw. Rhoddwyd gwybod i gleifion am y broses o'u cadw ar lafar ac yn ysgrifenedig, gyda thystiolaeth bod hawliau'n cael eu hailddarllen yn rheolaidd ac yn dilyn digwyddiadau allweddol fel prosesau adnewyddu a thribiwnlys. Rhoddwyd gwybodaeth i'r cleifion hefyd mewn perthynas ag eiriolaeth, apeliadau a phrosesau cwyno. Roedd yn gadarnhaol gweld bod arwyddion addas yn rhoi gwybod i gleifion anffurfiol am eu hawl i adael yr uned, ac roedd allweddi 'fob' yn cael eu darparu i gleifion anffurfiol er mwyn eu cefnogi i ddod i mewn a mynd allan yn annibynnol.

Cafodd trefniadau absenoldeb Adran 17 eu dogfennu'n briodol. Roedd ffurflenni absenoldeb yn nodi risgiau ac amodau absenoldeb a gwelsom dystiolaeth gref o gyfranogiad cleifion a grymuso wrth gynllunio absenoldeb a gwneud penderfyniadau o'r adeg y cânt eu derbyn ymlaen. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos bod canlyniadau absenoldeb yn cael eu cofnodi a bod cleifion yn cael copïau o ddogfennaeth berthnasol.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar gofnodion pedwar claf a gwelsom fod y cofnodion clinigol yn cael eu cadw i safon dda. Roedd y cofnodion yn drefnus, yn cael eu storio'n ddiogel, yn hawdd i'w dilyn ac yn cynnwys cofnod gofal cyfoes. Ar y cyfan, roedd y cofnodion wedi'u teilwra at yr unigolyn, yn gyfredol, ac yn adlewyrchu anghenion a risgiau dynodedig y cleifion, gyda chyfranogiad cryf drwyddi draw gan y tîm amlddisgyblaethol.

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth ar gael ar gyfer pob claf, ac roeddent yn cyd-fynd â meysydd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Roedd asesiadau iechyd meddwl, iechyd corfforol ac asesiadau risg cynhwysfawr yn llywio datblygiad cynlluniau gofal a thriniaeth wedi'u teilwra at yr unigolyn. Gwelsom dystiolaeth fod iechyd corfforol yn cael ei fonitro'n barhaus drwy'r broses dderbyn, gydag atgyfeiriadau at wasanaethau gofal iechyd arbenigol lle roedd yn ofynnol.

Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cynnwys nodau clir, trefniadau adolygu arfaethedig ac ymyriadau dynodedig. Roedd dulliau cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol neu gynlluniau rheoli risg ar waith i gleifion perthnasol, ac roeddent yn gysylltiedig â sbardunau unigol, strategaethau ymdopi, atal atglafychu a lleihau risg. Roedd cynllunio gofal yn cefnogi adferiad, adsefydlu ac annibyniaeth, gan gynnwys trefniadau cynllunio i ryddhau cleifion o'r uned a chamu i lawr lle y bo'n briodol.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu eu cynlluniau gofal a thriniaeth lle bo hynny'n bosibl, gyda llais y claf yn cael ei adlewyrchu drwy asesiadau, prosesau cynllunio ac adolygu gofal. Roedd y cofnodion yn cynnwys barnau, dymuniadau a dyheadau'r cleifion, gan ddangos dull wedi'i gynhyrchu ar y cyd i gynllunio gofal. Roedd y cleifion yn mynychu rowndiau ward a chyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn rheolaidd, gyda chyfranogiad teuluoedd, gofalwyr a chynrychiolwyr lle y bo'n briodol. Roedd adolygiadau rheolaidd y tîm amlddisgyblaethol yn cefnogi'r broses o adolygu gofal yn barhaus, gan gynnwys mewnbwn gan weithwyr proffesiynol perthnasol ac asiantaethau allanol fel y bo'n ofynnol.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Gwnaethom edrych ar gais Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a gwelsom fod asesiadau galluedd a threfniadau cydsynio wedi'u hystyried a'u dogfennu'n briodol yng nghofnodion y cleifion.

Gwnaethom edrych ar gofnodion un claf a oedd yn destun awdurdodiad y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a gwelsom fod yr holl ddogfennaeth berthnasol ar waith. Roedd yr awdurdodiad, a gwblhawyd gan Asesydd Lles Pennaf, yn cynnwys trefniadau adolygu a thystiolaeth briodol fod y tîm amlddisgyblaethol wedi ystyried yr angen am drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a dewisiadau llai cyfyngol. Casglodd yr asesiad fod y trefniadau er lles pennaf y claf ac yn cynrychioli'r opsiwn lleiaf cyfyngol i gynnal ei ddiogelwch a'i lesiant.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwnaethom sgwrsio â'r staff drwy gydol yr arolygiad a chawsant eu gwahodd i gwblhau holiaduron AGIC. Dim ond dau holiadur wedi'u cwblhau gan y staff y gwnaethom eu derbyn. Felly, roedd maint y sampl yn rhy fach i ddod i gasgliadau cadarn.

Roedd yr adborth i'r holiadur a gawsom gan y staff yn gymysg. Nododd y ddau ymatebydd eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi yn bersonol i gleifion, ac mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y sefydliad. Fodd bynnag, cododd y ddau bryderon mewn perthynas â lefelau staffio, pwysau llwyth gwaith, cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, gwelededd uwch-reolwyr a chyfathrebu ag uwch-reolwyr, a hyder y bydd modd ymdrin â phryderon a godir. Nododd y ddau ymatebydd hefyd nad oeddent wedi cael adborth yn dilyn digwyddiadau, camgymeriadau neu gamgymeriadau a fu bron â digwydd.

Ni chafodd y pryderon hyn eu hadlewyrchu yn ein hymgysylltiad ar raddfa ehangach â'r staff yn ystod yr arolygiad. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gadarnhaol am y gofal a ddarperir, yn disgrifio diwylliant tîm cefnogol, a gwnaethant ddweud wrthym fod gofal diogel yn cael ei gynnal. Siaradodd y staff yn gadarnhaol hefyd am waith tîm a chymorth arweinyddiaeth yn y gwasanaeth.

Gall y darparwr ddymuno ystyried yr adborth a ddaeth i law drwy'r holiadur staff fel rhan o'i drefniadau ymgysylltu â staff parhaus.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu a goruchwyllo effeithiol ar waith yn Llety Delfryn a Rhyd Alyn i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd amrywiaeth o bolisiâu addas a chyfredol ar gael er mwyn helpu'r staff i ymgymryd â'u rolau gyda threfniadau effeithiol ar waith i gyfathrebu diweddariadau i bolisiâu a datblygiadau sefydliadol.

Roedd strwythur sefydliadol clir gyda llinellau atebolrwydd diffiniedig, a gefnogir gan drefniadau cyfarfod wedi'u strwythuro, prosesau uwchgyfeirio a system rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Gwelsom waith tîm amlldisgyblaethol effeithiol yn ystod cyfarfodydd, gyda phob disgyblaeth yn cyfrannu at drafodaethau yn ymwneud â gofal cleifion, rheoli risgiau a darparu gwasanaethau.

Roedd cyfarfodydd llywodraethu clinigol a phrosesau archwilio sefydledig rheolaidd yn cefnogi trefniadau llywodraethu, gan oruchwyllo perfformiad gwasanaethau a gwelliannau parhaus a gefnogir. Gwelsom dystiolaeth fod camau gweithredu sy'n codi o gyfarfodydd llywodraethu ac archwiliadau'n cael eu monitro a'u hadolygu i sicrhau

cynnydd ac atebolrwydd. Gwelsom dystiolaeth o oruchwyliaeth y darparwr gwasanaeth drwy ymweliadau Rheoliad 28 a threfniadau llywodraethu rhanbarthol sefydledig.

Dangosodd y staff ymrwymiad cryf i ddarparu gofal diogel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd yr adborth mewn perthynas â chydweithwyr a rheolwyr yn ystod yr arolygiad yn gyson gadarnhaol, gyda'r staff yn disgrifio arweinwyr fel unigolion gweladwy, agos atoch a chefnogol. Cawsom wybod fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal i roi cyfleoedd i'r staff godi pryderon a rhoi adborth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd cyfarfodydd uwch-aelodau o'r staff wedi'u cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan y gwasanaeth yn ystod y chwe mis blaenorol. Gall hyn gyfyngu ar gyfleoedd i ymgysylltu â'r staff, rhoi adborth a thrafod datblygiadau'r gwasanaeth.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfarfodydd uwch-aelodau o'r staff eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan y gwasanaeth.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Edrychwyd ar sampl o gofnodion digwyddiadau a gwelsom eu bod wedi cael eu cofnodi'n briodol, eu hymchwilio a'u rheoli, gyda chanlyniadau wedi'u dogfennu a chamau gweithredu wedi'u huwchgyfeirio lle y bo'n ofynnol. Cafodd digwyddiadau unigol eu trafod ag aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol a rhannwyd y dysgu gyda'r staff i gefnogi gwelliannau parhaus. Cawsom wybod bod y gwasanaeth yn rhoi menter Adolygiad Ar Ôl Gweithredu ar waith i gryfhau dysgu ac ymarfer myfyriol yn dilyn digwyddiadau.

Roedd cwynion yn cael eu cofnodi'n briodol, eu hymchwilio a'u hadolygu er mwyn nodi themâu a thueddiadau. Gwelsom dystiolaeth fod cwynion yn cael eu datrys yn lleol lle y bo'n bosibl, gyda chamau gweithredu'n cael eu nodi a'u monitro drwy brosesau llywodraethu. Roedd yn gadarnhaol nodi bod llawer mwy o ganmoliaeth na chwynion ar draws y ddwy uned.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Nodwyd bod prosesau addas ar waith i gefnogi'r broses o recriwtio, cadw a datblygu staff yn ddiogel. Roedd polisi recriwtio, dethol a phenodi staff ar waith a oedd yn cefnogi arferion recriwtio agored a theg. Roedd cofnodion staff yn dangos bod gwiriadau cyn cyflogi priodol yn cael eu cwblhau cyn i staff ddechrau cyflogaeth, gan gynnwys gwirio hunaniaeth, gwiriadau hanes cyflogaeth, geirdaon a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y cofnodion staff hefyd yn cynnwys disgrifiadau swydd wedi'u llofnodi a oedd yn amlinellu eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol yn glir.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaeth yn mynd trwy newidiadau i'r gweithlu sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu ac ailagor Tŷ Delfryn yn unol â'r bwriad. Amlinellodd yr uwch-aelodau o'r staff gynlluniau recriwtio a gwnaethant gadarnhau y byddent yn ymgynghori â'r staff ar rolau o fewn y model gwasanaeth diwygiedig. Gwnaethant ddweud wrthym fod cyfathrebu ac ymgysylltu wedi cynyddu drwy gydol y broses ailddatblygu.

Disgrifiodd y staff ddiwylliant cefnogol a chynhwysol a gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt fynediad at ystod o ddulliau llesiant a chymorth, gan gynnwys goruchwyliaeth, arfer myfyriol, cymorth seicolegol, cynrychiolwyr Rhyddid i Leisio Barn a chymorth TRiM. Roedd polisi 'Codi pryderon: Rhyddid i Leisio Barn' (chwythu'r chwiban) ar waith er mwyn helpu'r staff i deimlo wedi'u grymuso ac yn ddiogel i godi pryderon.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom hefyd fod digon o staff a chymysgedd sgiliau priodol i'w cefnogi i ddarparu gofal diogel. Roedd y trefniadau staffio'n ystyried aciwtedd cleifion, lefelau arsylwi ac anghenion clinigol, gan leoli staff ychwanegol pan fo angen. Roedd yn gadarnhaol nodi nad oedd y gwasanaeth wedi defnyddio staff asiantaeth ers mis Ionawr 2026 a'i fod yn defnyddio staff banc rheolaidd lle bo'n ofynnol i gefnogi parhad gofal.

Gwelsom lefelau arfarnu a chydymffurfio â goruchwyliaeth uchel, gan gefnogi datblygiad a chymhwysedd y staff. Dywedodd y staff wrthym fod hyfforddiant yn hygyrch a bod cyfleoedd datblygu yn cael eu hannog. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos cydymffurfiaeth gyffredinol dda ar draws y ddwy uned, gyda chydymffurfiaeth gyffredinol o 94% yn Llety Delfryn a 92% yn Rhyd Alyn. Er bod cydymffurfiaeth yn gadarnhaol ar y cyfan, gwnaethom nodi sawl cwrs hyfforddiant gorfodol, atodol a phenodol i'r rôl lle mae angen gwella cydymffurfiaeth. Roedd hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth is mewn rhai modiwlau Ymyriad Diogelwch uwch a gloywi yn Rhyd Alyn.

Esboniodd y staff fod cyfraddau cydymffurfio is yn adlewyrchu carfanau staff llai o faint yn Rhyd Alyn, hyfforddiant newydd ei gyflwyno neu arbenigol ac oedi yn y system hyfforddiant electronig sy'n adlewyrchu hyfforddiant wedi'i gwblhau, sesiynau hyfforddiant a drefnwyd a newidiadau yn rolau'r staff. Cawsom sicrwydd fod y materion hyn wedi'u nodi drwy drefniadau llywodraethu ac roeddent yn destun gweithgareddau monitro a gwella parhaus.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi cydymffurfiaeth isel â hyfforddiant Codi a Chario Pobl yn Fwy Diogel ar draws y ddwy uned, gyda chyfraddau cydymffurfiaeth o 25% yn Rhyd Alyn a 65% yn Llety Delfryn. O gofio pwysigrwydd yr hyfforddiant hwn wrth gefnogi'r broses o symud a rheoli cleifion yn ddiogel, ac wrth leihau'r risg o anaf i gleifion a staff, gwnaethom geisio sicrwydd uniongyrchol bod mesurau lliniaru risg priodol ar waith.

Ymatebodd y gwasanaeth yn brydlon a chymerodd gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r mater yn ystod yr arolygiad. Darperir rhagor o fanylion yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Rhaid i'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- **Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r rôl sy'n weddill o fewn yr amserlenni disgwylidig**
- **Adolygu'r system rheoli hyfforddiant i sicrhau bod gofynion hyfforddiant y staff yn berthnasol i'w rolau presennol a bod cofnodon cydymffurfiaeth yn gywir ac yn gyfredol.**

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwnaethom nodi hepgoriadau yn yr asesiadau risg o bwyntiau clymu. Yn Llety Delfryn, nid oedd cyfrifiaduron yr ystafell therapi galwedigaethol, ceblau, cyfarpar y gampfa ac oergell wedi'u cynnwys yn yr asesiad risg o bwyntiau clymu. Yn Rhyd Alyn, nid oedd oergelloedd a dyfeisiau cegin bach gyda cheblau wedi'u cofnodi.	Gall asesiadau risg o bwyntiau clymu anghyflawn arwain at beidio â nodi, asesu na lliniaru risgiau amgylcheddol yn llawn, gan effeithio ar ddiogelwch cleifion o bosibl.	Codwyd y pryder gyda'r uwch-aelodau o'r staff yn ystod yr arolygiad a cheisiwyd sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â chyfanrwydd a chywirdeb y broses asesu risg o bwyntiau clymu.	Yn ystod yr arolygiad, rhoddodd y staff sicrwydd fod yr asesiadau risg o bwyntiau clymu wedi'u hadolygu a'u diweddarau i gynnwys yr eitemau sydd wedi'u hepgor.
Gwelsom fod un ffurflen cydsynio i driniaeth yn cynnwys enw claf anghywir.	Gallai dogfennaeth cydsynio i driniaeth anghywir arwain at ddryswch mewn perthynas â thriniaeth awdurdodedig y claf.	Codwyd y mater ag uwch-aelodau o'r staff ar unwaith ac adolygwyd cywirdeb y ddogfennaeth cydsynio i driniaeth.	Cafodd yr enw claf anghywir ei unioni yn ystod yr arolygiad a rhoddwyd sicrwydd bod y ddogfennaeth wedi'i chywiro.

<p>Gwnaethom nodi lefelau cydymffurfiaeth isel â hyfforddiant Codi a Chario Pobl yn Fwy Diogel ar draws y ddwy uned, gyda chyfraddau cydymffurfiaeth o 25% yn Rhyd Alyn a 65% yn Llety Delfryn.</p>	<p>Gall hyn gynyddu'r risg o anaf i gleifion a staff yn ystod gweithgareddau symud a chodi a chario a lleihau'r sicrwydd y caiff staff eu paratoi'n briodol i ymateb yn ddiogel i anghenion cleifion.</p>	<p>Ceisiodd AGIC sicrwydd ar unwaith mewn perthynas â threfniadau i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r lefelau cydymffurfiaeth isel â hyfforddiant.</p>	<p>Yn ystod yr arolygiad, cymerodd y gwasanaeth gamau gweithredu ar unwaith a darparodd dystiolaeth fod sesiynau hyfforddiant ychwanegol wedi'u sicrhau ar gyfer mis Awst 2026, dyrannwyd cyrsiau cynharach i'r staff a bydd staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol ar y rota ar gyfer pob shiftt hyd nes bod y gofynion hyfforddiant sy'n weddill wedi'u cwblhau. Cawsom wybod hefyd y byddai'r staff sy'n aros am hyfforddiant yn cael eu goruchwyllo gan gydweithwyr hyfforddedig hyd nes bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau.</p>
---	---	--	---

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Llety Delfryn a Rhyd Alyn

Dyddiad yr arolygiad: 27, 28 a 29 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.			
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Llety Delfryn a Rhyd Alyn

Dyddiad yr arolygiad: 27, 28 a 29 Gorffennaf 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Dangosodd yr adborth gan gleifion bryderon mewn perthynas â chyfranogiad wrth gynllunio gofal, amgyffrediadau o ddiogelwch a mynediad at weithgareddau.	Dylai'r gwasanaeth adolygu'r adborth a dderbyniwyd ac ystyried cyfleoedd pellach i gryfhau cyfranogiad y cleifion wrth gynllunio gofal a mynd i'r afael â phryderon yn ymwneud â diogelwch a mynediad at weithgareddau.	Adborth gan gleifion	Bydd yr uwch-dîm arwain, therapi galwedigaethol a'r cydlynnydd gweithgareddau yn mynychu cyfarfodydd cymunedol a Chyngor y bobl i gasglu rhagor o wybodaeth gan gleifion am sut i wella'u cyfranogiad mewn cynllunio gofal, amgyffrediadau o ddiogelwch a mynediad at weithgareddau.	Leanne Smith Cyfarwyddwr Ysbyty, Rheolwr Cofrestredig	Hydref 2026 Monitro parhaus drwy drefniadau llywodraethu clinigol misol.

				Bydd yr holl nyrsys cynradd yn cyfarfod â'r cleifion wyneb yn wyneb er mwyn adolygu cynnydd ac i gael eu hadborth ar gyfranogiad gwell, bydd hyn yn cael ei ddogfennu yn y nodiadau pinc.		
2.	Nid oedd rhai o'r byrddau gwybodaeth i gleifion yn Llety Delfryn, yn cael eu diwedddaru'n gyson.	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y wybodaeth i gleifion sy'n cael ei harddangos drwy'r gwasanaeth yn gywir, yn gyfredol ac yn cael ei chynnal yn briodol.	Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion	Mae pob hysbysfwrdd bellach yn gyfredol ac mae proses ar waith i glerc y ward wirio pob poster yn wythnosol.	Jade Davies Rheolwr Clinigol	Wedi'i gwblhau ym mis Awst 2026
3.	Roedd bwrdd 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' yn cael ei arddangos yn Llety Delfryn ond nid oedd yn amlwg yn Rhyd Alyn.	Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod y camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i adborth gan gleifion yn cael eu cyfathrebu'n gyson ar draws y ddwy uned.	Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth	Caiff hwn bellach ei arddangos yn yr ardal gymunedol yn Rhyd Alyn a chaiff ei ddiwedddaru gan y cleifion a'r cydlynwyr gweithgareddau.	Jade Davies Rheolwr Clinigol	Wedi'i gwblhau ym mis Awst 2026

4.	Gwnaethom nodi nifer o broblemau amgylcheddol yn Llety Delfryn yr oedd ganddynt y potensial i beryglu proses atal a rheoli heintiau effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys sinc ystafell ymolchi a lleithder a oedd wedi effeithio ar y llawr, bordiau wal wedi'u difrodi neu wedi'u treulio mewn coridorau cymunedol, ardaloedd o waliau a oedd wedi'u difrodi.	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn ymdrin â materion atgyweirio a chynnal a chadw amgylcheddol yn ddioed er mwyn cefnogi proses atal a rheoli heintiau effeithiol.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae llawr yr ystafelloedd ymolchi bellach wedi'i gwblhau. Mae ardal y sinc a'r paneli o'i hamgylch bellach wedi'u harchebu ac rydym yn aros iddynt gyrraedd. Mae ardaloedd cymunedol y Llety i gyd yn y broses o gael eu hailbeintio, mae hyn yn cynnwys holl arwynebau'r wal a'r bordiau wal. Bydd yr adran cynnal a chadw yn mynd i'r cyfarfod boreol yn ddyddiol i gael gwybod am unrhyw waith atgyweirio neu waith arall. Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn cael gwybod am unrhyw achosion o oedi ar yr un diwrnod.	Leanne Smith Cyfarwyddwr Ysbyty, Rheolwr Cofrestredig Justin Burke Rheolwr Cynnal a Chadw	Llawr yr Ystafell Ymolchi wedi'i Gwblhau Bwriedir cwblhau ardaloedd y sinc erbyn 1/10/26 Bwriedir cwblhau'r rhaglen addurno erbyn 1/11/26
5.	Nid oedd tymereddau'r oergelloedd yn yr adran	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod prosesau monitro	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae prosesau monitro pob oergell bellach ar	Jade Davies Rheolwr Clinigol	Wedi'i gwblhau ym

	Therapi Galwedigaethol yn cael eu monitro'n gyson.	oergelloedd yn cael eu cynnal yn gyson ac yn unol â gweithdrefnau lleol.		waith ac yn cael eu cofnodi gan y cydlynwyr gweithgareddau a'u goruchwyllo gan yr adran Therapi Galwedigaethol. Bydd y Rheolwr Clinigol yn gwirio hyn ar hap wrth gynnal sesiwn gerdded o gwmpas yn wythnosol		mis Awst 2026
6.	Roedd yr ystafell feddyginiaeth yn Rhyd Alyn yn gweithredu uwchlaw'r ystod tymereddau a argymhellir ar gyfer storio meddyginiaethau. Fel mesur dros dro, roedd meddyginiaethau'n cael eu storio a'u rhoi o Lety Delfryn.	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau yr eir i'r afael â'r materion amgylcheddol sy'n effeithio ar storio meddyginiaethau yn Rhyd Alyn yn ddioed.	Rheoli meddyginiaethau	Mae gwaith yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd i osod ardal ddynodedig er mwyn storio a rheoli meddyginiaethau'n ddiogel. Mae hyn yn cynnwys cwpwrdd meddyginiaethau, aerdymheru ac oergell. Bydd hyn yn golygu bod modd rhoi pob meddyginiaeth o lety Rhyd Alyn.	Leanne Smith Cyfarwyddwr Ysbyty, Rheolwr Cofrestredig Justin Burke Rheolwr Cynnal a Chadw	1/10/26

7.	Nid oedd rhestr wirio'r cyfarpar cymorth cyntaf yn nodi'n glir pa mor aml yr oedd angen ei wirio ac roedd y cofnodion yn dangos nad oedd gwiriadau bob amser yn cael eu cwblhau yn gyson.	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwiriadau'r cyfarpar cymorth cyntaf yn cael eu cwblhau mor aml ag sy'n ofynnol a bod y ddogfennaeth yn nodi'n glir pryd mae'r gwiriadau'n ddyledus.	Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol	Mae amledd y gwiriadau bellach wedi'i argraffu ar frig rhestr wirio'r cyfarpar cymorth cyntaf; ac mae'r hen rai bellach wedi'u disodli â'r ffurflen newydd.	Leanne Smith Cyfarwyddwr Ysbyty, Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau 9/9/26
8.	Gwnaethom nodi nad oedd cyfarfodydd uwch-aelodau o'r staff wedi'u cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan y gwasanaeth yn ystod y chwe mis blaenorol.	Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfarfodydd uwch-aelodau o'r staff eu cynnal mor aml ag sy'n ofynnol gan y gwasanaeth.	Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Mae'r holl gyfarfodydd uwch-nyrsys bellach wedi'u nodi ar ddyddiadur Outlook ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Caiff y rhain eu cynnal bob mis. Bydd yr holl gofnodion yn cael eu hanfon i'r adran weinyddol er mwyn eu darllen a chyfeirio atynt yn hawdd.	Leanne Smith Cyfarwyddwr Ysbyty, Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau 9/9/26
9.	Er bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn gadarnhaol ar y cyfan, gwnaethom nodi sawl cwrs hyfforddiant gorfodol, atodol a	Rhaid i'r gwasanaeth wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r 	Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Mae'r modiwlau Ymyriad Diogelwch uwch a gloywi yn Rhyd Alyn bellach wedi'u cwblhau ac ar y	Leanne Smith Cyfarwyddwr Ysbyty, Rheolwr Cofrestredig	Wedi'i gwblhau

	<p>phenodol i'r rôl lle mae angen gwella cydymffurfiaeth. Roedd hyn yn cynnwys cydymffurfiaeth is mewn rhai modiwlau Ymyriad Diogelwch uwch a gloywi yn Rhyd Alyn.</p>	<p>rôl sy'n weddill o fewn yr amserlenni disgwylidig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu'r system rheoli hyfforddiant i sicrhau bod gofynion hyfforddiant y staff yn berthnasol i'w rolau presennol a bod cofnodion cydymffurfiaeth yn gywir ac yn gyfredol. 		<p>cofnodion wedi cyflawni hyfforddiant.</p> <p>Mae'r system rheoli hyfforddiant yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd cyflwyno llyfrgell hyfforddiant electronig yn gwella hyfforddiant penodol i'r rôl.</p> <p>Bydd yr uwch-dîm arwain hefyd yn adolygu hyfforddiant penodol i'r rôl, yn ogystal â phob hyfforddiant statudol/gorfodol yn y cyfarfod cydymffurfiaeth wythnosol.</p>		<p>1/11/26</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
--	--	--	--	---	--	--------------------------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Leanne Smith

Swydd: Rheolwr Cofrestredig/Cyfarwyddwr Ysbyty

Dyddiad: 14 Medi 2026